## Y Gêm Genedlaethol?

Pa un yw gêm genedlaethol Cymru? Rygbi wrth gwrs! Mae pawb yn gwybod hynny! Pan welwch chi faint o bobl sydd ar strydoedd Caerdydd ar ddiwrnod gêm rygbi rhyngwladol mae'n amlwg i bawb. Mae'r Cymry'n cefnogi eu tîm rygbi cenedlaethol bob amser. Ar Hydref 15ed 2011 am 8 o'r gloch y bore daeth 60,000 o bobl i Stadiwm y Mileniwm i wylio Cymru'n chwarae'n erbyn Ffrainc. Does dim byd yn anarferol yn hynny byddech chi'n meddwl, ond roedd y gêm yn cael ei chwarae 11,500 o filltiroedd i ffwrdd yn Seland Newydd! Dim ond sgrin oedd yn y stadiwm. Mae hynny'n dangos pa mor bwysig yw rygbi i'r Cymry. Mae dyddiau arbennig, fel pan mae'r tim yn ennill Pencampwriaeth y Chwe Gwlad, yn adegau pan mae'r Cymry'n falch o wisgo'r crys coch.

Mae mwy o hwyl i'w gael wrth gefnogi rygbi. Does dim angen cadw cefnogwyr y timau ar wahân, fel mewn pêl droed. Mae pawb yn ffrindiau, yn cefnogi eu tim ond eto'n gyfeillgar efo pawb arall. Mae hynny'n beth braf i'w weld. Gall y cefnogwyr weiddi dros bob chwaraewr pan fo'n chwarae i Gymru hyd yn oed os yw'n chwarae i dîm nad ydynt yn eu cefnogi ar ddydd Sadwrn arferol.

Dyna pam mai rygbi yw'r gêm genedlaethol a byddai'n barti Calan Gaeaf i'w gofio pe bai Sam Warburton yn codi Cwpan y Byd ar Hydref 31ain eleni!




GwE Tuag at Ragoriaeth
YSGOL BOTWNNOG
YSGOL DYFFRYN OGWEN
YSGOL TRYFAN
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government